## Bwrdd S4C

Cyfarfod 480
10:00, 23 Hydref 2025
Yr Egin, Caerfyrddin

## CRYNODEB O GOFNODION

Aelodau oedd yn bresennol:

- Delyth Evans [DE], Cadeirydd y Bwrdd
- Geraint Evans [GE], Prif Weithredwr
- Guto Bebb [GB], Aelod Anweithredol
- Dyfrig Davies [DD], Aelod Anweithredol
- Suzy Davies [SuD], Aelod Anweithredol
- Wyn Innes [WI], Aelod Anweithredol
- Llion Iwan [LlI], Prif Swyddog Cynnwys (o eitem 2 ymlaen)
- Elin Morris [EM], Prif Swyddog Gweithredu (o eitem 2 ymlaen)
- Denise Lewis Poulton [DLP], Aelod Anweithredol
- Betsan Powys [BP], Aelod Anweithredol
- Gwenllian Lansdown Davies [GLD], Aelod Anweithredol

Eraill oedd yn bresennol:

- Llinos Priestland [LlP], Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd
- Sue Butler [SB], Pennaeth Chwaraeon (ar gyfer eitem 6)
- Eilir Jones [EJ], Pennaeth Ymchwil Cynulleidfa (ar gyfer eitem 5) – yn rhithiol
- Iestyn Morris [IM], Pennaeth Cyfreithiol (ar gyfer eitem 3) – yn rhithiol
- Elinor Price [EP], Rheolwr Cyllid (ar gyfer eitem 7)
- Mali Williams [MW], Pennaeth Materion Cyhoeddus (ar gyfer eitemau 4 a 5)

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:

- Geraint Pugh [GP], Ysgrifennydd y Bwrdd
- Catryn Ramasut [CR], Aelod Anweithredol

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Datganiadau diddordebau ac ymddiheuriadau**<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb.<br><br>Tynnwyd sylw pawb at God Diwylliant S4C ar ddechrau'r cyfarfod. | |
| 2. | **Diweddariad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad oedd yn amlinellu'r cyfarfodydd yr oedd wedi cynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd.<br><br>Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r Bwrdd ar wahanol faterion nad oeddent yn ymddangos ym mhapurau'r Cyfarfod.<br><br>Cynllun Rhaglenni'r BBC | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddodd y Prif Weithredwr fod S4C yn parhau i drafod trefniadau'r Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2026–27 gyda'r BBC. Yn sgil Deddf Cyfryngau 2024, nid oes bellach gofyn i'r BBC ddarparu nifer penodol o oriau o gynnwys i S4C, ac felly gellir cytuno ar drefniadau amgen.<br><br>Wrth ystyried hyn, awgrymwyd fod angen trafodaeth ehangach ar y mater hwn o fewn y Bwrdd, ac fe holwyd erbyn pryd y byddai angen penderfyniad terfynol gan S4C ar unrhyw gytundeb amgen. Atebwyd fod y BBC yn awyddus i gyflwyno cynigion i'w Dîm Rheoli ym mis Tachwedd, ac ar hyn o bryd yn ystyried pa gynnig fydd yn cael ei gyflwyno. Awgrymwyd y dylid dod â chynnig ffurfiol yn ôl i Fwrdd S4C ym mis Rhagfyr.<br><br>**Penderfyniad: Papur llawn i ddod i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr ar drefniadau'r cynllun rhaglenni i'r dyfodol.**<br><br><u>Hyfforddiant yn y Sector</u><br><br>Yn sgil y drafodaeth ynghylch hyfforddiant mae S4C yn cefnogi yn ystod Diwrnod Strategol y Bwrdd, mae'r Adran Pobl a Diwylliant wrthi'n tynnu gwybodaeth ynghyd i'w gyhoeddi ar y wefan. Bydd copi o'r wybodaeth yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Cyhoeddi rhestr o'r rhaglenni hyfforddi y mae S4C yn eu cefnogi ar y wefan, a rhannu copi gyda'r Bwrdd.** | |
| <br><br>3. | [ymunodd IM â'r cyfarfod dros Teams]<br><br>**Adlewyrchu ar y setliad cyfreithiol**<br><br>Yn dilyn y cyhoeddiad ar 10 Hydref 2025 ynghylch y setliad rhwng Siân Doyle, Rhodri Williams a S4C – ddaeth ag achosion cyfreithiol SD i ben, heb unrhyw gyfaddefiad o atebolrwydd – teimlodd y Cadeirydd fod hwn yn gyfle i'r Bwrdd adlewyrchu ar y setliad ac ar y digwyddiadau yn 2023.<br><br>Diolchwyd i IM am ei waith ar yr achosion dros y misoedd diwethaf, ac i'r Pwyllgor Achosion (gyda SuD, IM a GP fel aelodau) am hwyluso'r broses ar ran y Bwrdd yn effeithiol ac yn gymesur.<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at bapur gan GP oedd yn amlinellu'r camau a gymerwyd ers 2023 i gryfhau trefniadau llywodraethu a gwytnwch cyffredinol S4C; a diolchwyd i GB, fel Cadeirydd dros dro'r Bwrdd ar y pryd, ac i'r Uwch Dîm Arwain am eu gwaith yn y cyfnod hwnnw.<br><br>Croesawyd y setliad fel cam tuag at dynnu llinell dan y gorffennol. Nodwyd bod diwylliant S4C bellach mewn lle llawer cryfach, ond pwysleisiwyd yr angen i aros yn wyliadwrus rhag unrhyw ddirywiad yn y diwylliant mewnol.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i weithio i adfer ffydd y staff a'r sector. Er bod y trefniadau llywodraethu presennol yn gadarn, mae angen sicrhau eu bod yn gweithio yn effeithiol ac yn cael eu gwreiddio'n ddiwylliannol<br><br>Nododd y Prif Weithredwr bwysigrwydd i'r Uwch Dîm Arwain groesawu her gan aelodau'r Bwrdd, gan bwysleisio hefyd yr angen i gydnabod arbenigedd a chyfrifoldebau 'r UDA wrth arwain ar faterion gweithredol o ddydd i ddydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | [gadawodd IM y cyfarfod] | |
| 4. | [ymunodd MW â'r cyfarfod]<br><br>**Is-Strategaeth Gynnwys**<br><br>Fel cyflwyniad i'r eitem, nododd y Prif Weithredwr ei bod yn hollbwysig cael y strategaeth hon yn gywir, gan ei bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r strategaeth gorfforaethol. Amlinellodd bod gan Ll weledigaeth glir sydd wedi'i ymgorffori o fewn y gwahanol genres, a bod cyfraniad MW wedi bod yn allweddol i sicrhau bod y gwaith yn cysylltu'n effeithiol â'r strategaeth gorfforaethol ehangach.<br><br>Cyflwynodd Ll yr is-strategaeth gan nodi bod elfennau ohoni eisoes ar waith, megis hysbysebu'r pecyn tendr ar gyfer syniadau cynnwys digidol. Dywedodd bod hyn yn gam pwysig tuag at gefnogi datblygiad y sector, gan gynnig sicrwydd dros gyfnod o ddwy flynedd i alluogi cwmnïau i gryfhau a datblygu eu timoedd ar gyfer y dyfodol.<br><br>Holwyd cwestiwn ynghylch parodrwydd y sector i ymateb i'r gofynion sy'n gysylltiedig â thrawsnewid i fod yn ddigidol yn gyntaf. Esboniwyd mai'r bwriad yw rhannu'r strategaeth gyda'r sector, gan gynnwys manylion gweithredol clir. Byddai hefyd angen bod yn glir ynghylch sut y byddwn yn mesur llwyddiant yr is-strategaeth.<br><br>Wrth drafod yr is-strategaeth, nodwyd bod angen egluro'n glir beth a olygir wrth 'ddigidol yn gyntaf', yn enwedig o ran gwariant ar gynnwys o safon. Mae'r canfyddiad hanesyddol bod cynnwys digidol yn rhatach ac o safon isel yn dal i fodoli, ac mae lle i gywiro'r naratif hwn yn glir yn yr is-strategaeth.<br><br>Awgrymwyd hefyd bod angen gonestrwydd ynghylch y ffaith y bydd angen rhoi'r gorau i rai comisiynau er mwyn rhyddhau arian i fuddsoddi mewn cynnwys newydd. Mae hyn yn hanfodol i alluogi trawsnewid y sector.<br><br>Cydnabuwyd bod hyfforddiant i'r sector wedi bod yn anghyson dros y blynyddoedd, ac mae angen buddsoddiad strategol i fynd i'r afael â hyn. Ni fydd y strategaeth yn llwyddo oni bai bod y sector yn gallu ymateb yn gadarnhaol. Yn hynny o beth, byddai angen signal clir bod newid yn hanfodol, ond bod S4C yn barod i drawsnewid ochr yn ochr â'r sector, gan fuddsoddi mewn datblygiad sgiliau.<br><br>Byddai cyfathrebu clir yn elfen hanfodol o roi'r is-strategaeth newydd ar waith. O ran ein cynulleidfa draddodiadol, mae perygl y byddant yn cam-ddehongli'r strategaeth fel un sy'n eu hanwybyddu, wrth i ni geisio denu cynulleidfaoedd newydd. Yn ogystal, mae'n bwysig bod gan y comisiynwyr ddealltwriaeth gyson a chlir o amcanion yr is-strategaeth, er mwyn gallu ei roi ar waith yn ymarferol a chynnig arweiniad i'r sector.<br><br>Ar ddiwedd y drafodaeth, nodwyd wrth gymeradwyo Strategaeth 2030 yn gynt eleni y byddai cyfres o is-strategaethau yn darparu mwy o fanylder ymarferol. Holwyd a yw'r is-strategaeth gynnwys ddrafft yn cyflawni'r nod hwn, ac os oes elfennau pendant y gellid eu cryfhau – megis gosod targedau clir ar gyfer gweithio gyda chwmnïau llai neu ddisgrifio sut y dylai'r sector edrych erbyn 2030? Awgrymwyd hefyd y dylid gwneud y cysylltiad ag Is-Strategaeth Addysg S4C yn fwy amlwg, er mwyn dangos cydgysylltiad a chyd-destun ehangach.<br><br>Gwahoddwyd Ll i adlewyrchu ar sylwadau ac adborth aelodau'r Bwrdd, a dod â fersiwn diwygiedig o'r is-strategaeth i gyfarfod mis Rhagfyr. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfyniad: Adolygu'r fersiwn ddrafft ar sail adborth y Bwrdd a dod â fersiwn diwygiedig i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr.**<br><br>Mae cyfarfod sector wedi'i drefnu ar ddechrau mis Tachwedd, a bydd cyfle i gychwyn trafodaeth am y trywydd strategol bryd hynny. Gan fod y pwyslais ar gynnwys digidol wedi cael ei gyfathrebu gan S4C i'r sector ers tro, ni ddylai'r cyfeiriad newydd ddod fel syndod iddynt. Cytunwyd felly nad oes unrhyw rwystr i Ll gyflwyno'r weledigaeth yn y cyfarfod sector nesaf, hyd yn oed os nad yw'r strategaeth wedi'i chymeradwyo'n derfynol gan y Bwrdd eto. | |
| 5. | [ymunodd EJ â'r cyfarfod]<br><br>**Mesuryddion Strategaeth 2030**<br><br>Cyflwynodd GE y papur, gan nodi bod rhai o'r mesuryddion oedd wedi eu datblygu i dracio cynnydd yn erbyn Strategaeth 2030 yn canolbwyntio ar gynnal yn hytrach na chynyddu neu ehangu, er mwyn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu darlledwyr cyhoeddus yn y dirwedd bresennol.<br><br>Pwysleisiwyd hefyd, wrth osod targedau tymor hwy, mae'n anodd darogan yn fanwl beth fydd yn realistig ymhen pum mlynedd, gan y gall y cyd-destun newid yn sylweddol. O ganlyniad, rhagwelir y bydd angen adolygu priodoldeb y targedau yn ystod cyfnod Strategaeth 2030. Serch hynny, mae'r papur yn cynnig cyfeiriad clir sy'n dangos y bwriad strategol ar gyfer y dyfodol.<br><br>Nodwyd bod gan S4C wahanol gynulleidfaoedd – y rhai sy'n gweithio'n fewnol, y gwylwyr presennol, a'r unigolion nad ydynt yn gwylio S4C ond sy'n dylanwadu ar benderfyniadau ariannu. Mae'n debygol na fydd y grŵp olaf yn deall y cyd-destun ehangach o weithrediad y sianel, ac felly bydd mesuryddion meintiol yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol â nhw, gan ddangos gwerth ac effaith S4C mewn ffordd glir a mesuradwy.<br><br>Holwyd beth oedd y pum prif fesurydd yr oedd y Bwrdd am i'r UDA eu cyflwyno iddynt, a pha mor aml roeddent am dderbyn dashfwrdd er mwyn cael trosolwg dros gyflawni'r strategaeth gorfforaethol. Teimlwyd y byddai adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd yn ormod, ac y byddai adrodd bob hanner blwyddyn yn ddigonol.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwyo'r fframwaith mesuryddion cyffredinol a nodi'r cynllun gweithredu, ar y ddealltwriaeth bod angen gwaith pellach i:**<br>• **leihau nifer y mesuryddion a chryfhau'r ffocws ar y prif rai strategol; ac**<br>• **ystyried sut i fesur effaith cynnwys S4C mewn ysgolion a chynulleidfaoedd daearyddol.**<br><br>**Penderfyniad: Adrodd ar y mesuryddion ddwywaith y flwyddyn yn hytrach na chwarterol.**<br><br>[gadawodd EJ a MW y cyfarfod] | |
| 6. | [ymunodd SB â'r cyfarfod]<br><br>**Cyflwyniad gan Sue Butler, Comisiynydd Chwaraeon** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wrth gyflwyno SB, amlinellodd GE bwysigrwydd chwaraeon i S4C, gan nodi bod chwaraeon yn gallu denu cynulleidfa ehangach. Pwysleisiodd hefyd werth partneriaethau a pherthnasau gyda rhanddeiliaid amrywiol yn y byd chwaraeon.<br><br>Cyflwynodd SB y sefyllfa bresennol o ran chwaraeon ar S4C, ynghyd â'r cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf. Yna aeth ymlaen i drafod yr heriau sy'n wynebu chwaraeon ar S4C.<br><br>Nodwyd bod chwaraeon yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd y mae S4C yn cael ei werthfawrogi gan gynulleidfaoedd nad ydynt fel arfer yn gwylio cynnwys S4C na chynnwys yn y Gymraeg.<br><br>Bu trafodaeth ynghylch adnabod chwaraeon 'niche' y gallai S4C berchnogi, gan greu cyfleoedd unigryw i ddenu cynulleidfaoedd newydd. Nodwyd hefyd bwysigrwydd cael data dibynadwy am ba chwaraeon sydd o ddiddordeb i bobl ifanc, er mwyn llywio penderfyniadau cynnwys a strategaeth ddarlledu. Y nod yw defnyddio'r wybodaeth hon i ehangu cyrhaeddiad S4C ymhlith cynulleidfaoedd newydd.<br><br>Nodwyd pwysigrwydd dweud stori o amgylch y gêm, gan gynnwys creu cynnwys digidol byr (shortform) sy'n cyd-fynd â digwyddiadau chwaraeon. Fodd bynnag, codwyd y cwestiwn ynghylch sut i sicrhau bod y cynnwys hwn yn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, gan mai dim ond tua 15K sy'n dilyn cyfrifon cymdeithasol S4C Chwaraeon ar hyn o bryd. Esboniwyd dyna pam mae cydweithio gyda sefydliadau eraill ac unigolion blaenllaw mor bwysig, er mwyn ehangu'r cyrhaeddiad a sicrhau mwy o sylw i gynnwys S4C.<br><br>Diolchwyd i SB am ei chyflwyniad diddorol ac addysgiadol.<br><br>[gadawodd SB a GLD y cyfarfod] | |
| 7. | [ymunodd EP â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad ariannol chwarterol (Ch 1)**<br><br>Cyflwynodd EP yr adroddiad gan amlinellu'r prif uchafbwyntiau, gan nodi y byddai'r incwm a'r gwariant yn debygol o gydweddu erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>[gadawodd GB y cyfarfod]<br><br>Holwyd a yw'r Bwrdd yn derbyn mantolen gyfunol (consolidated balance sheet) ar gyfer Grŵp S4C. Esboniwyd bod y Bwrdd fel arfer yn derbyn cyfrifon rheoli (management accounts) ar gyfer yr ochr gyhoeddus, ac yn derbyn copi o'r cyfrifon rheoli ar wahân sy'n mynd i Fwrdd y Grŵp Masnachol (oedd wedi eu cynnwys yn yr atodiadau i bapurau cyfarfod y Bwrdd).<br><br>**Penderfyniad: Nodi'r adroddiad, a chymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.**<br><br>[gadawodd EP y cyfarfod] | |
| 8. | **Adroddiadau gan bwyllgorau'r Bwrdd**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd ar 25/06/25)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Risg (a gynhaliwyd ar 27/06/25)<br><br><u>Bwrdd y Grŵp Masnachol</u><br><br>Yn sgil Deddf Cyfryngau 2024, bydd angen caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer unrhyw fuddsoddiadau masnachol newydd sy'n mynd y tu hwnt i weithgarwch presennol S4C. Nodwyd bod cyd-gynyrchiadau yn parhau'n weithgarwch derbyniol, ond y bydd angen eglurder pellach ynghylch unrhyw fuddsoddiadau masnachol eraill.<br><br>Er bod y ddeddfwriaeth newydd yn symleiddio rhai agweddau, bydd angen cytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth (Memorandum of Understanding) gyda'r DCMS ynghylch y broses gymeradwyo newydd fydd yn cymryd lle'r broses fwy cymhleth o ddefnyddio 'Statutory Instrument'.<br><br>Mae S4C wedi bod yn gweithio gyda'r DCMS i sicrhau bod y Memorandwm hwn yn ei le erbyn 01 Ionawr 2026, pan ddaw'r cymal perthnasol o'r ddeddfwriaeth newydd i rym. Fodd bynnag, mae'r sefydliad yn dal i ddisgwyl derbyn drafft gan DCMS cyn trafod y cynnwys a darparu adborth.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd i S4C fod yn glir ynghylch bwrpas ac amcanion ei hadain fasnachol wrth drafod y Memorandwm arfaethedig gyda'r DCMS.<br><br><u>Y Pwyllgor Archwilio a Risg</u><br><br>Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y prosiect i ddisodli meddalwedd BSM. Nodwyd bod nifer o risgiau'n gysylltiedig â'r broses, ac mae S4C ar hyn o bryd yn penodi rheolwr prosiect i arwain ar y gwaith hwn. | |
| 9. | **Adroddiadau i'w cymeradwyo / nodi heb angen trafodaeth**<br><br>Rhannwyd yr adroddiadau canlynol gydag aelodau'r Bwrdd, gyda chais bod yr aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd o flaen llaw os oeddent yn dymuno trafod unrhyw un ohonynt mewn manylder. Os na dderbyniwyd cais o'r fath, cymeradwywyd unrhyw weithredu arfaethedig yn unol â'r argymhelliad yn yr adroddiad ei hun.<br><br><u>Adroddiad yr UDA</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Adroddiad ariannol chwarterol y Grŵp Masnachol (Ch 1)</u><br><br>Nodwyd yr adroddiad.<br><br><u>Dyddiadau cyfarfodydd 2026–27</u><br><br>Nodwyd y dyddiadau.<br><br><u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u><br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cofnodion cyfarfod 479, a gynhaliwyd ar 17/07/2025.**<br><br><u>Pwyntiau Gweithredu</u> | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd y diweddariad ar bwyntiau gweithredu'r Bwrdd.<br><br><u>Penderfyniadau rhwng cyfarfodydd</u><br><br>Nodwyd yn ffurfiol y penderfyniad a gymerwyd drwy ohebu ers y cyfarfod diwethaf, sef:<br><br>Cytunodd holl aelodau'r Bwrdd ar 19 Medi 2025 i benodi DD fel Aelod Annibynnol Arweiniol. Bydd DD yn gwasanaethu yn y swyddogaeth o 22 Medi 2025 tan ddiwedd ei gyfnod fel aelod anweithredol o'r Bwrdd.<br><br><u>Rhaglen Waith</u><br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf. | |
| 10. | **Unrhyw fater arall, a gwerthuso'r cyfarfod yn erbyn Cod Diwylliant S4C**<br><br><u>Hyd y cyfarfod</u><br><br>Teimlai'r Cadeirydd fod amser wedi bod yn dynn unwaith eto yn ystod y cyfarfod. Codwyd y cwestiwn ynghylch pa opsiwn fyddai'n well gan aelodau'r Bwrdd – cael toriad estynedig dros ginio, neu barhau heb doriad er mwyn gorffen yn gynt. Cytunwyd y byddai'n briodol i ymestyn hyd y cyfarfod, gan gynnwys toriad am ginio, os oedd yr agenda yn galw am hyn.<br><br>**Penderfyniad: Cylchredeg neges WhatsApp i aelodau'r Bwrdd i geisio barn ar hyd a strwythur cyfarfodydd y dyfodol.**<br><br><u>Cynhadledd S4C a TAC</u><br><br>Caiff cynhadledd S4C a TAC ei chynnal yng Nghaerdydd ar 05 a 06 Tachwedd 2025, wedi'i threfnu ar y cyd i gyd-fynd â phen-blwydd S4C yn 43 oed. Croesewir pobl i alw heibio i wahanol sesiynau drwy gydol y digwyddiad. Nodwyd y bydd yr amserlen lawn yn cael ei rhannu gyda'r Bwrdd maes o law. | |